

UNED 6 – arddodiaid

Tasg 1

Atebwch mewn brawddegau llawn:

i. Gyda phwy dych chi'n byw?

.....

ii. Ar beth edrychoch chi ar y teledu dros y penwythnos?

.....

iii. At bwy anfonoch chi e-bost neu neges ddiwethaf?

.....

iv. Am faint o'r gloch godoch chi bore 'ma?

.....

v. Ym mha fis gaethoch chi eich geni?

.....

Tasg 2

Llenwch y bylchau gydag un o'r rhain:

ataf	iddo	iddi	amdanat	arnon	arnyn
------	------	------	---------	-------	-------

i. Gofynnwch _____ hi helpu yn y ffair.

ii. Edrychais i _____ nhw'n chwarae pêl-droed ddoe.

iii. Anfonwch e-bost _____ i gyda gwybodaeth am y cyfarfod.

iv. Gwenodd y babi _____ ni am y tro cyntaf heddiw.

v. Dangosais i _____ fe sut i wneud y gwaith.

vi. Darllenais i _____ ti yn y bwletin wythnosol.

Tasg 3

Darllenwch y ddau e-bost yma, ac atebwch y cwestiynau:

Oddi wrth: Alwen Lewis
At: Cyfeillion Theatr y Bont
Pwnc: Ailagor y Theatr

Annwyl Gyfeillion,

Dw i'n ysgrifennu atoch chi gyda'r newyddion da bod Theatr y Bont yn mynd i ailagor ym mis Gorffennaf. Erbyn hyn, mae'r fynedfa a'r caffi newydd yn barod. Un peth fydd ddim wedi newid ydy'r croeso cynnes byddwch chi'n ei gael gan y staff i gyd wrth i chi ddod i'r Theatr. Bydd rhaglen arbennig iawn dros y mis cyntaf ar ôl i ni ailagor, gan gynnwys cyngerdd arbennig gyda'r canwr enwog Emyr Teifi. Gallwch chi weld manylion y rhaglen ar ein gwefan www.theatrybont.com yn barod. 'Dyn ni eisiau diolch i chi am eich cefnogaeth ac am helpu i godi arian i wella'r adeilad. Felly trwy fis Gorffennaf, bydd hi'n bosib i aelodau Cyfeillion Theatr y Bont brynu tocynnau am hanner pris. Archebwch drwy ebost neu ffoniwch y Theatr ar 02103 342342. Dw i'n edrych ymlaen at eich gweld chi yn y Theatr unwaith eto cyn bo hir.

Pob hwyl,

Alwen



Oddi wrth: Huw Morys

At: Alwen Lewis

Pwnc: Ailagor y Theatr (eto)

Annwyl Alwen,

Diolch yn fawr am y neges. Dw i'n edrych ymlaen at fwynhau perfformiadau yn Theatr y Bont unwaith eto a gweld sut mae'r adeilad wedi gwella. Hoffwn i brynu wyth tocyn i gyngerdd Emyr Teifi. Dw i wrth fy modd bod Emyr yn dod adre i ganu yn yr ardal yma a dw i eisiau dod â fy nheulu i gyd i'r cyngerdd. Roedd Emyr yn yr un dosbarth â fi, a dw i ddim wedi ei weld yn canu ers iddo ennill cystadleuaeth yn eisteddfod yr ysgol.

Wnewch chi anfon manylion cost y tocynnau ata i os gwelwch chi'n dda? Fydda i'n cael wyth am bris pedwar?

Diolch yn fawr,

Huw Morys

Tasg 4

Nodwch yr ateb mwyaf priodol (appropriate) o'r brawddegau isod, trwy roi'r llythyren yn y blwch gwyn.

1. Prif neges Alwen Lewis yw/ydy...

- a. bod y theatr yn mynd i gau.
- b. bod gwefan newydd gyda/gan y theatr.
- c. bod y theatr yn mynd i agor eto.
- ch. bod dim byd wedi newid yn y theatr.
- d. bod angen staff ar y theatr.

2. I gael gwybodaeth am berfformiadau yn Theatr y Bont...

- a. dylech chi edrych yn y papur lleol.
- b. dylech chi anfon amlen â stamp arni.
- c. rhaid i chi aros tan fis Gorffennaf.
- ch. dylech chi edrych ar wefan y theatr.
- d. dylech chi ddod i'r caffi.

3. Bydd 'Cyfeillion y Theatr' yn cael...

- a. coffi am ddim.
- b. tocynnau rhatach.
- c. perfformio yn y theatr.
- ch. tocynnau am ddim.
- d. seddi gwell.

4. Prif neges Huw Morys i Alwen yw/ydy...

- a. ei fod eisiau tocynnau i gyngerdd Emyr Teifi.
- b. ei fod wedi gweld Emyr Teifi yn y theatr.
- c. ei fod wedi prynu pedwar tocyn i'r cyngerdd.
- ch. ei fod ddim eisiau dod i'r theatr eto.
- d. bod y theatr wedi gwella llawer.

5. Roedd Huw Morys ac Emyr Teifi...



- a. yn arfer canu gyda/efo'i gilydd.
- b. yn ddau frawd.
- c. yn yr ysgol gyda/efo'i gilydd.
- ch. yn gweithio yn y theatr.
- d. wedi ennill cystadleuaeth yn yr eisteddfod.

Tasg 5

Ysgrifennwch ebost at Alwen Lewis yn cynnig helpu yn y cyngerdd (tua 100 gair).